Thema Ymchwil: Diwylliant

Astudiaeth Achos

# Trawsnewid Cyflwyniad A Chynrychiolaeth Mewn Ymarfer Theatr Cyfranogol


**YMCHWILYDD**

**Yr Athro Simon Banham**


**TROSOLWG**


Cyflwynodd *Summer, Autumn, Winter, Spring* ddulliau newydd o ymdrin â gwaith llwyfan cyfranogol, gan drawsnewid natur y perfformiwr, y cyfranogwyr a phrofiad ac ymgysylltiad y gynulleidfa. Roedd y gwaith yn cynnwys pedwar cynhyrchiad cysylltiedig ond gwahanol, a gyflawnwyd dros gyfnod o dair blynedd, cyn eu perfformio yn eu cyfanrwydd mewn cylch perfformio cyfranogol 7 awr ym Manceinion yn 2016 ac yn Norwich yn 2017. Ymgysylltwyd â'r cyhoedd wrth greu a pherfformio digwyddiad theatrig hunanfyfyriol, gan ymgorffori ymchwiliadau dramayddiaethol a golygfaol o foeseg a gwleidyddiaeth presenoldeb a chynrychiolaeth i greu archwiliad epig o le a phersonoldeb. Roedd y gwaith yn cyfoethogi gwerthfawrogiad a gwybodaeth y cyhoedd o'r ffurf theatrig, gan greu ffyrdd newydd o feddwl a ddylanwadodd ar arferion cynhyrchu cyfoes.






## YR YMCHWIL

Roedd *Summer, Autumn, Winter, Spring* yn ymestyn ymchwiliad tymor hir gan yr Athro Simon Banham i gyd-bresenoldeb perfformwyr a chynulleidfa fel rhan o realiti materol perfformiad theatrig. Roedd yn galluogi cynulleidfaoedd i brofi arferion artistig o ansawdd uchel, wedi'u creu gyda chyfranogwyr lleol yn hytrach na pherfformwyr hyfforddedig, ac yn pwysleisio perfformiad bywyd bob dydd drwy ddramayddiaethau seiliedig ar gyfweliad, ymchwiliad a chyfarwyddyd. Wrth gydnabod cydnabyddiaeth a dilysiad yr 'hunan' fel mecanwaith craidd i'r theatr, mae *Summer, Autumn, Winter, Spring* yn taflu goleuni newydd ar fecaneg cyflwyniad, cynrychiolaeth a phresenoldeb.

Archwiliodd sut y gallai cyfarpar theatrig wahodd cynulleidfa i ymuno a dylanwadu ar y broses o greu sy'n cael ei datgelu iddyn nhw. Roedd yn edrych ar ddau gysyniad allweddol: yn gyntaf, i ba raddau y gallai ein methodoleg waith ysgogi cydnabyddiaeth o wrthrychau golygfaol ac ymgysylltiad â hwy fel cyfranwyr o fewn perfformiad; ac yn ail, pa effaith y gallai ad-drefnu ffrâm theatrig gwaith ei chael ar brofiad y gynulleidfa o berfformiad.

## YR EFFAITH

### EHANGU ARFERION Y DIWYDIANT

Mae *Summer, Autumn, Winter, Spring* wedi bod yn rhan annatod o gomisiynau allweddol a gafwyd yn ei sgil, yn enwedig creu digwyddiad cyfranogol mawr ar gyfer Gŵyl Ryngwladol Manceinion (MIF) yn 2017. Cafodd *What is the City but the People?*, digwyddiad agoriadol cyhoeddus untro ar gyfer MIF17, ei ffrydio'n fyw gan y BBC. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys detholiad wedi'i guradu o drigolion Manceinion ar lwyfan pwrpasol 66m o hyd a adeiladwyd yng nghanol y ddinas, gan ddenu trigolion lleol i fod yn rhan o'r cast ac i ymgysylltu â'r pwnc. Roedd hefyd yn cynnig ffrâm theatrig a chyflwyniadol ymwybodol i hwyluso archwiliad o gyflwyno'r hunan o fewn cynrychiolaeth o'r ddinas.

### CYFOETHOGI GWERTHFAWROGIAD A DYCHYMYG Y CYHOEDD

Cyfoethogodd *Summer, Autumn, Winter, Spring* werthfawrogiad cyhoeddus a gwybodaeth am y ffurf theatrig drwy gynhyrchu mathau newydd o fynegiant artistig. Galluogodd gynulleidfaoedd i ymgysylltu ag amgylcheddau golygfaol a dramâu cyfranogol mewn ffrâm berthynol, gan symud y ffocws a'r persbectif i ffwrdd o werthfawrogiadau artistig uniongyrchol o gyfansoddiad gan ffafrio profiad cyfranogol o ddigwyddiad esthetig. Roedd yn annog cynulleidfaoedd a chymunedau i ddychmygu a chyflwyno eu hunain fel cyfranogwyr mewn arferion artistig o gynrychiolaeth. Cyrhaeddodd gynulleidfa o 7,366. Roedd ymateb cyfranogwyr ac adborth y gynulleidfa'n tystio bod y cynhyrchiad wedi ysgogi syniadau newydd ac wedi sbarduno cryn drafodaeth am agweddau sylfaenol ar y theatr gyfoes. Roedd adborth y gynulleidfa'n cyfeirio at natur unigryw ac ysbrydoledig y gwaith.

Denodd *What is the City but the People?* gynulleidfaoedd mawr, heb sôn am sylw rhyngwladol (mynychwyd y digwyddiad gan oddeutu 6,000 o bobl, gyda dros 10,000 yn ei wylio yn fyw ar-lein). Yn dilyn pleidlais, enillodd y cynhyrchiad wobr y digwyddiad gorau yng Ngwobrau Diwylliant Manceinion 2018.

Cafodd y ddau gynhyrchiad sylw eang ac adolygiadau helaeth yn y wasg Brydeinig, ac ar deledu a radio. Mae ffrwd byw gan y BBC o *What is the City but the People?* yn dal ar gael ar BBC iPlayer.

### DYLANWADU AR ARFERION CYNHYRCHU CYFOES

Roedd y dulliau archwiliadol sy'n sail i *Summer, Autumn, Winter, Spring* yn gofyn am gyd-ddatblygu strwythurau sefydliadol a blaenoriaethau cynhyrchu newydd ar gyfer pob cyd-destun cynhyrchu. Byddai hynny'n creu a gweithredu arferion cynhyrchu i alluogi a chefnogi'r dulliau arfaethedig o integreiddio ac ymgysylltu â chyfranogwyr a chynulleidfaoedd lleol wrth greu a pherfformio'r gwaith.

Roedd natur a strwythur penodol y pedwar gwaith gwahanol yn Summer, Autumn, Winter, Spring yn golygu bod rhaid cynllunio a chytuno ar berthynas waith wahanol gyda gwyliau a hyrwyddwyr wrth gynhyrchu'r gwaith, gan lunio a gwreiddio arferion gwaith lleoliadol newydd, priodol i bob cyd-destun.



**Roedd yn galluogi cynulleidfaoedd i brofi arferion artistig o ansawdd uchel, wedi'u creu gyda chyfranogwyr lleol yn hytrach na pherfformwyr hyfforddedig, ac yn pwysleisio perfformiad bywyd bob dydd drwy ddramayddiaethau seiliedig ar gyfweliad, ymchwiliad a chyfarwyddyd.**